## YMDDIRIEDOLWYR CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH SIR Y FFLINT

Cofnodion cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 7 Hydref 2014 am 2.00 pm.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley, Hugh Irving, Huw Jones, Barbara Smith, David Smith, Julian Thompson-Hill a/ac Eryl Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Rheolwr Prosiect Busnes, Gwella a Moderneiddio (SLP), Prif Swyddog Cyfreithiol (HW), Uwch Syrfëwr Prisio ac Eiddo (RW) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

### 2 PENODI CADEIRYDD

Enwebwyd ac eiliwyd y Cynghorydd Hugh Evans fel Cadeirydd yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd Hugh Evans yn cael ei benodi'n gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.*

### 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag unrhyw fater sydd i'w ystyried yn y cyfarfod.

### 4 YSGOL UWCHRADD Y RHYL – TROSGLWYDDO STATWS YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL Y TIR

Roedd adroddiad cyfrinachol gan y Gwasanaethau Prisio, Ystadau ac Eiddo wedi'i gylchredeg gyda phapurau'r cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn cynghori ynglŷn â'r cynigion ar gyfer ailddatblygu Ysgol Uwchradd y Rhyl a'r goblygiadau ar gyfer tir yr ymddiriedolaeth. Roedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr i gyfnewid y tir er mwyn gallu trosglwyddo'r statws elusennol o un safle i un arall, o fewn ffin yr Ysgol, er mwyn hwyluso adeiladu'r ysgol newydd.

Roedd safle Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cynnwys tua 19.3 erw (7.81 Ha) ac wedi'i amlinellu'n goch er mwyn ei ddangos ar y cynllun atodedig, Atodiad 1. Roedd y tir mewn glas (9.7 erw (3.93Ha)) yn amodol ar ymddiriedolaeth elusennol hanesyddol

a ddelir gan Gyngor Sir Ddinbych fel Ymddiriedolwr ar ran Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Sir y Fflint. Caffaelwyd y tir yn wreiddiol mewn dau ddarn, y cyntaf yn 1889 yn cynnwys tua 4.5 erw, a'r ail yn 1929 yn cynnwys 5.2 erw (gyda chyfanswm o 9.7 erw).

Roedd y Ganolfan Hamdden yn cael ei rhedeg gan Wasanaethau Hamdden Sir Ddinbych. Roedd Ysgol y Rhyl ac ysgolion eraill yn defnyddio'r cyfleuster yn ystod oriau ysgol ac yn destun Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) rhwng yr Adran Hamdden a Dysgu Gydol Oes, tu hwnt i oriau ysgol roedd y gymuned ehangach yn defnyddio'r cyfleuster. Ymddengys bod y Comisiwn Elusennol yn fodlon o ran presenoldeb y Ganolfan Hamdden ar dir yr Elusen.

Roedd y tir sy'n Wyrdd ar y cynllun, tua 9.96 erw (4.03 Ha), o fewn teitl rhydd-ddaliad Sir Ddinbych. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar y teitl cofrestredig fyddai'n effeithio ar ddefnyddio'r safle i adeiladu a gweithredu ysgol newydd.

Roedd y cynnig i ailddatblygu safle Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cynnwys ail-ffurfweddu'r safle cyfan. Byddai cynllun presennol y safle'n cael ei drawsnewid tra byddai'r Ganolfan Hamdden yn aros fel y mae, ond byddai'r Ganolfan Ieuenctid yn cael ei dymchwel. Byddai'r cynigion yn effeithio ar y tir elusennol gan na fyddai'r tir sydd â statws elusennol ar hyn o bryd yn safle prif swyddogaeth addysg yr ysgol a byddai'n ffurfio rhan o'r safle fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion hamdden yn bennaf. Y cynnig oedd trosglwyddo Statws Elusennol y tir i safle adeiladau newydd yr ysgol ar y tir Gwyrdd.

Roedd y safleoedd Glas a Gwyrdd yn eithaf tebyg o ran maint, dynodiad cynllunio, defnydd, lleoliad, topograffeg, gwerth ac ati. Roedd y tir Gwyrdd wedi'i ystyried yn safle amgen addas fel derbynnydd statws elusennol y tir glas, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Ymddiriedolwyr. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo achos busnes ar gyfer ailddatblygu Ysgol newydd y Rhyl a chymeradwywyd y cais cynllunio. Roedd Atodiad 2 yr adroddiad yn nodi cynllun y datblygiad newydd mewn perthynas â'r safle a'r isadeiledd presennol.

Roedd y Prisiwr Rhanbarth wedi cyflawni prisiad o'r tir Glas a Gwyrdd i benderfynu os byddai buddion yr elusen yn parhau pe bai'r statws elusennol yn cael ei drosglwyddo, ac i ddarparu sicrwydd i'r Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn Elusennol bod y tir newydd yn dderbynnydd addas ar gyfer statws elusennol. Roedd y prisiad wedi bod ar werth y farchnad, yn unol â chymeradwyaeth RICS a Datganiad Ymarfer Prisiad 3.2 a nodyn canllaw UKGN4, a gan ystyried Rheoliadau Elusennau (Adroddiad Syrfewyr Cymwys) 1992. Casglodd adroddiad y Prisiwr Rhanbarth, Atodiad 3, bod trosglwyddo statws elusennol o un safle i un arall yn hyfyw yn ariannol a bod y tir amgen yn addas fel derbynnydd y statws elusennol. Roedd y Comisiwn Elusennol wedi nodi eu bod yn fodlon gyda thelerau Adroddiad y Prisiwr Rhanbarth, a'r cynnig i drosglwyddo'r statws elusennol o'r Tir Glas i'r Tir Gwyrdd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r dogfennau ategol cadarnhaodd yr Ymddiriedolwyr eu bod yn fodlon mai'r cynigion i ailddatblygu Ysgol Uwchradd y Rhyl a throsglwyddo'r tir oedd y dewis gorau ar gyfer yr Elusen. Cymeradwyodd yr Ymddiriedolwyr i gyfnewid y tir, a throsglwyddo statws elusennol y tir Glas i'r tir Gwyrdd, ar y sail bod y Comisiwn Elusennol wedi derbyn bod y tir Gwyrdd yn dderbynnydd addas ar gyfer

y statws elusennol. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr i'r Comisiwn Elusennol, os yw'n angenrheidiol yn eu tyb hwy, i lunio cynllun er mwyn cyflawni'r cyfnewid.

Hysbysodd Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr Aelodau eu bod wedi ceisio cyngor cyfreithiol annibynnol, o ran y Statws Elusennol, a bod cynrychiolydd ar gael dros y ffôn i ddarparu cyngor i Aelodau'r Ymddiriedolaeth os oedd angen.

Yn dilyn trafodaeth fer:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod yr Ymddiriedolwyr yn cytuno i:-*

*(a) Ryddhau'r tir a ddengys mewn glas, 9.7 erw, o'r statws elusennol, a*
*(b) Cheisio cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennol bod y statws yn cael ei drosglwyddo i'r tir sy'n eiddo i'r Cyngor ac wedi'i liwio'n Wyrdd, 9.96 erw.*

Daeth y cyfarfod i ben am 13.00pm.